Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**




# Gweithwyr Cymdeithasol ar y Gofrestr yng Nghymru 2017

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Canllaw ac allwedd defnyddwyr

- Canllaw 'clicio a mynd' yw hwn sy'n eich galluogi i ddod o hyd i wybodaeth am destunau penodol yn gyflym ac yn uniongyrchol
- Mae'r dudalen gynnwys yn dangos beth mae pob adran o'r ddogfen yn ei gwmpasu. Cliciwch yr adran sydd ei heisiau arnoch, a byddwch yn mynd yn syth ati
- Trwy gydol y ddogfen, cliciwch ar unrhyw ddolen gyswllt at y wefan honno. Gallwch glicio ar y botwm ar unrhyw adeg i fynd yn ôl at y dudalen gynnwys



# Cynnwys


1. Cyflwyniad 04

2. Crynodeb 04

3. Tueddiadau a phwyntiau allweddol 05

4. Beth mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud 06

5. Data a dadansoddi 07

 5.1 Nifer y gweithwyr cymdeithasol ar y gofrestr 07

 5.2 Gwybodaeth am gyflogaeth 09

 5.3 Amser mewn swydd 10

 5.4 Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru 11

 5.5 Cymwysterau 13

 5.6 Gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso 16

 5.7 Amser a gymerir i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ennill swydd 19

 5.8 Gweithwyr cymdeithasol yn ymuno â'r Gofrestr ac yn gadael 21

 5.9 Trosiant gweithwyr cymdeithasol 22

 5.10 Oedran a rhyw gweithwyr cymdeithasol 24

 5.11 Amrywiaeth a gallu ieithyddol Cymraeg y gweithwyr cymdeithasol 27

# 1. Cyflwyniad

Dyma'r seithfed adroddiad am weithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Bwriad yr adroddiad yw gwneud sylwadau ar y data, craffu arno a gwneud crynodeb ohono ar gael i'r cyhoedd er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o'r gweithlu.

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yn dod o Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru o Weithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr). Caiff y wybodaeth ei chasglu pan fydd gweithwyr cymdeithasol yn gwneud cais i gofrestru, a phan fyddant yn dweud wrthym am unrhyw newidiadau.

Mae'r adroddiad yn edrych ar y 5,965 o unigolion sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol ar Ran 1 y Gofrestr ar 1 Mehefin 2017, ac mae'r dadansoddiad yn cynnwys data am bobl yn ymuno â'r Gofrestr ac yn ei gadael rhwng 1 Mehefin 2016 a 31 Mai 2017. Rydym yn edrych ar fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yn eu blwyddyn olaf er mwyn amlygu faint ohonynt a basiodd, cofrestrodd ac enillodd swyddi yng Nghymru.

# 2. Crynodeb

Mae'r gweithiwr cymdeithasol cyfartalog yn 46 oed, yn wyn ac yn fenywaidd. Mae gan dros draean ohonynt rywfaint o sgiliau Gymraeg. Mae'r mwyafrif yn gweithio i awdurdod lleol, mae ganddynt lwyth achosion gwaith cymdeithasol ac maent wedi bod yn eu swyddi presennol ers llai na phum mlynedd.

Mae'r gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso cyfartalog yn 33 oed, yn wyn ac yn fenywaidd. Mae gan dros hanner ohonynt rywfaint o sgiliau Cymraeg. Mae'r mwyafrif yn gweithio i awdurdod lleol, ond mae gan lai na hanner ohonynt lwyth achosion gwaith cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cymryd rhwng chwech a 12 mis i ennill swydd mewn gofal/gwaith cymdeithasol.

Lleihaodd nifer y gweithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr am y tro cyntaf. Mae 98 yn llai o weithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr o gymharu â'r llynedd. Mae llai o weithwyr cymdeithasol wedi ymuno â'r gofrestr ac mae mwy wedi gadael; fodd bynnag, mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a gymhwysodd y tu allan i'r DU sy'n ymuno â'r Gofrestr yn parhau i gynyddu. Mae trosiant wedi cynyddu o 5.5 y cant i 7.9 y cant. Caiff 131 yn llai o weithwyr cymdeithasol eu cyflogi gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn ddiddorol iawn, 4.8 y cant yn unig o'r rhai a adawodd y Gofrestr oedd o dan 30 oed, o gymharu â 9.2 y cant yn 2016. Y ganran yn 2012 oedd 5.4 y cant.

Llwyddodd bron i bob myfyriwr gwaith cymdeithasol ar eu blwyddyn astudio olaf ar radd gwaith cymdeithasol yng Nghymru i gymhwyso (241 o 250). Roedd 92 y cant o'r rhain wedi cofrestru â ni erbyn 1 Mehefin, ac roedd 75 y cant ohonynt wedi cael swydd mewn gofal cymdeithasol o fewn blwyddyn, sy'n

lleihad o saith y cant o gymharu â'r llynedd. Roedd gan dros draean o bob gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso swydd gofal cymdeithasol wrth iddynt gymhwyso.

Dim ond 45.6 y cant o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a gafodd swydd fel gweithiwr cymdeithasol â llwyth achosion yng Nghymru erbyn 1 Mehefin, sy'n lleihad sylweddol o 57.6 y cant yn 2016. Mae llai o weithwyr cymdeithasol yn cymhwyso, ac mae llai yn ennill swydd fel gweithwyr cymdeithasol yn y 12 mis yn dilyn hynny. Yn 2012, cafodd 89 y cant o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso swydd gofal cymdeithasol o fewn 12 mis, o gymharu â 75.2 y cant eleni.

# 3. Tueddiadau a phwyntiau allweddol

- Mae 5,965 o weithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr, gostyngiad o nifer llynedd, sef 6,063.
- Mae 12 y cant o weithwyr cymdeithasol wedi bod yn eu swydd bresennol ers dros 10 mlynedd – lleihad o 1.3 y cant.
- Gwelwyd gostyngiad pellach yn y nifer sy'n cymhwyso â gradd mewn gwaith cymdeithasol yn y pum mlynedd diwethaf.
- Gadawodd 480 o weithwyr cymdeithasol y Gofrestr, ac ymunodd 382, gan arwain at leihad net o 1.6 y cant ers 2016.
- Ymunodd 237 o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso â'r Gofrestr (61.5 y cant). O'r rhain, cafodd 222 ohonynt eu cymhwyster yng Nghymru.
- Trosiant gweithwyr cymdeithasol yn y flwyddyn ddiwethaf oedd 7.9 y cant (gadawodd 480 o 6,063 o weithwyr cymdeithasol y Gofrestr), o gymharu â 5.5 y cant yn 2016.
- Mae'r gymhareb menywod i ddynion yn parhau i fod yn sefydlog ar tua 4:1.
- 46 yw cyfartaledd oedran gweithwyr cymdeithasol ers 2012.
- Datganodd 36.7 y cant o weithwyr cymdeithasol eu bod naill ai'n rhugl neu fod ganddynt rywfaint o allu ieithyddol Cymraeg, cynnydd o 1.3 y cant.
- Enillodd 45.6 y cant (o gymharu â 57.6 y cant yn 2016) o bob gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso swydd fel gweithiwr cymdeithasol â llwyth achosion yng Nghymru erbyn 1 Mehefin.
- Cymhwysodd 31 o unigolion y tu allan i'r DU a chofrestru yng Nghymru eleni, sef y nifer mwyaf ers agor y Gofrestr.

# 4. Beth mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud

Rydym yn gosod safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg gwaith cymdeithasol, ac mae cwblhau cwrs cymhwyso gwaith cymdeithasol yn un o feini prawf ymuno â'r Gofrestr. Rydym yn sicrhau bod y rhaglenni hyfforddiant cymhwyso gwaith cymdeithasol yn cyrraedd y safon briodol ac yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau hanfodol angenrheidiol. Mae wyth gradd gwaith cymdeithasol ac amrywiaeth o raglenni ôl-gymhwyso. Mae pedwar o'r cyrsiau ôl-gymhwyso a gymeradwywyd yn ffurfio'r ***Fframwaith DAPP*** (Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus) sy'n ceisio cynorthwyo dysgu a datblygiad parhaus gweithwyr cymdeithasol wrth iddynt symud ymlaen yn eu gyrfaoedd.

Rydym yn parhau i gomisiynu Prifysgol Caerdydd, mewn cydweithrediad â Phrifysgolion Bangor, Abertawe a Glyndŵr, i ddarparu'r rhaglenni Ymarfer Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol, Ymarfer Uwch Gwaith Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol Ymgynghorol. Mae'r rhain, ynghyd â'r Rhaglen Gadarnhau i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso, yn creu'r Fframwaith DAPP ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd gwerthusiad annibynnol trydedd flwyddyn y Fframwaith DAPP yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2017.

Rydym yn parhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol trwy gyhoeddi ***canllawiau ymarfer***. Cyhoeddwyd fersiynau wedi'u diweddaru yng ngwanwyn 2017.

Yn 2016/17, roeddwn yn parhau i arwain y cynllun hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Roedd y cynllun yn cynnwys hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol. Gallwch weld rhagor o wybodaeth ar yr ***Hyb Gwybodaeth a Dysgu***.

Mae Uned Data Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar y ***data Cynllunio Gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol 2015-16***. Nod yr adroddiad hwn yw ein cynorthwyo ni ac awdurdodau lleol wrth gynllunio ar gyfer anghenion y gweithlu yn y dyfodol, a llywio comisiynu hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru.

# 5. Data a dadansoddi

## 5.1 Nifer y gweithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr

- Mae 5,965 o weithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr.
- Dyma ostyngiad o 1.6 y cant, ac eleni yw'r flwyddyn gyntaf y mae nifer y gweithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr wedi gostwng.

Tabl 1: Cyflogaeth gweithwyr cymdeithasol

| Math o waith | Cyfanswm |
|---|---|
| Cyflogedig mewn gofal cymdeithasol | 4,921 |
| Hunangyflogedig mewn gofal cymdeithasol | 257 |
| Cyflogedig gan asiantaeth mewn gofal cymdeithasol | 204 |
| Ar secondiad mewn gofal cymdeithasol | 18 |
| **Cyfanswm y bobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol** | **5,400** |

- Ar hyn o bryd, mae 90.5 y cant o weithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr (5,400 o weithwyr cymdeithasol) yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol, o gymharu â 91.8 y cant y llynedd.

- O'r rhain, mae 4.8 y cant (257) yn hunangyflogedig a 3.8 y cant (204) yn cael eu cyflogi gan asiantaeth.

- Mae gan 2.1 y cant o weithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr brif gyfeiriad gwaith y tu allan i Gymru, cynnydd o 104 i 128. Nid yw hyn yn cynnwys y 66 a gyflogir gan asiantaeth sydd â chyfeiriad cofrestredig y tu allan i Gymru.

- Roedd mwyafrif y gweithwyr ar secondiad mewn gofal cymdeithasol yn gweithio mewn rolau amrywiol ar wahân i weithiwr cymdeithasol.

Tabl 2: Rhesymau pam nad yw gweithwyr cymdeithasol yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd

| Math o waith | Cyfanswm |
|---|---:|
| Di-waith | 152 |
| Cyflogaeth yn anhysbys | 142 |
| Cyflogedig y tu allan i ofal cymdeithasol | 112 |
| Wedi ymddeol | 50 |
| Astudio – heb fod yn gyflogedig | 41 |
| Cyflogedig y tu allan i'r DU | 26 |
| Seibiant gyrfa | 26 |
| Hunangyflogedig y tu allan i ofal cymdeithasol | 10 |
| Gofalwr – dim cyflogwr | 6 |
| **Cyfanswm nad ydynt yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol** | **565** |

- Mae mwyafrif y gweithwyr cymdeithasol sydd ar y Gofrestr ond nad ydynt yn ymarfer ar hyn o bryd naill ai'n ddi-waith neu nid yw eu cyflogwyr yn hysbys i ni (52 y cant o'r rhai nad ydynt yn ymarfer).

- Yn y dyfodol, bydd angen i weithwyr cymdeithasol roi tystiolaeth eu bod yn bwriadu ymarfer gwaith cymdeithasol yng Nghymru er mwyn aros ar y Gofrestr. Mae hyn yn debygol o leihau'r niferoedd yn nhabl 2.

## 5.2 Gwybodaeth am gyflogaeth


Tabl 3: Cyflogaeth yr holl weithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr yn ôl sector

| | 2013 | | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sector | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Awdurdodau lleol – gwasanaethau cymdeithasol | 4,146 | 75.2% | 4,180 | 75.5% | 4,246 | 76.5% | 4,232 | 76.1% | 4,067 | 75.3% |
| Trydydd sector | 368 | 6.7% | 355 | 6.4% | 369 | 6.7% | 359 | 6.5% | 333 | 6.2% |
| Preifat | 265 | 4.8% | 279 | 5.0% | 274 | 4.9% | 254 | 4.6% | 245 | 4.5% |
| Hunan-gyflogedig | 211 | 3.8% | 223 | 4.0% | 222 | 4.0% | 234 | 4.2% | 255 | 4.7% |
| Llywodraeth | 164 | 3.0% | 149 | 2.7% | 140 | 2.5% | 143 | 2.6% | 149 | 2.8% |
| Asiantaeth recriwtio/ cyflogaeth | 167 | 3.0% | 184 | 3.3% | 122 | 2.2% | 118 | 2.1% | 140 | 2.6% |
| Iechyd a chyfiawnder | 75 | 1.4% | 61 | 1.1% | 71 | 1.3% | 115 | 2.1% | 104 | 1.9% |
| Addysg bellach/uwch | 44 | 0.8% | 42 | 0.8% | 53 | 1.0% | 47 | 0.8% | 38 | 0.7% |
| Rheoleiddio/ arolygu | 46 | 0.8% | 44 | 0.8% | 35 | 0.6% | 32 | 0.6% | 38 | 0.7% |
| Awdurdodau lleol – arall | 25 | 0.5% | 22 | 0.4% | 15 | 0.3% | 30 | 0.5% | 31 | 0.6% |
| Cyfanswm | 5,511 | 100% | 5,539 | 100% | 5,547 | 100% | 5,564 | 100% | 5,400 | 100% |

- Nid yw'r canrannau yn y tabl wedi newid rhyw lawer fesul blwyddyn ers 2013.
- Y newid mwyaf yn y flwyddyn ddiwethaf oedd y nifer sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol. Mae hyn wedi gostwng o 4,232 i 4,067 (llai nag un y cant), er bod y mwyafrif helaeth o weithwyr cymdeithasol (75.3 y cant) yn parhau i fod yn gyflogedig yn y sector.

## 5.3 Amser mewn swydd

Ffigur 1: Amser yn y swydd bresennol o gymharu â 2012




| | Mehefin 2012 | Mehefin 2017 |
|---|---|---|
| 0 i 5 mlynedd | 60.9% | 68.2% |
| 5 i 10 mlynedd | 28.1% | 19.8% |
| 10 i 15 mlynedd | 7.0% | 8.9% |
| 15 flwyddyn + | 4.0% | 3.1% |

- Eleni, roedd 68.2 y cant o weithwyr cymdeithasol wedi bod yn eu swyddi presennol ers pum mlynedd neu lai. Mae hyn 7.2 y cant yn uwch na phum mlynedd yn ôl.
- Mae'r ganran sydd wedi bod yn eu swydd bresennol ers rhwng pump a 10 mlynedd wedi gostwng 8.3 y cant i gymharu â phum mlynedd yn ôl, i 19.8 y cant yn 2017.

## 5.4 Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru

- Mae'r ffigurau yn yr adran flaenorol yn cyfeirio at **bob** gweithiwr cymdeithasol ar y Gofrestr, ac mae rhai ohonynt yn gweithio y tu allan i Gymru. Mae'r adran hon yn edrych ar y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol **yng Nghymru**.

- Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr ac sy'n cael eu cyflogi gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru wedi lleihau o 4,148 yn 2016 i 4,017 (67.3 y cant o weithwyr cymdeithasol a 74.4 y cant o'r rhai sy'n cael eu cyflogi ym maes gofal cymdeithasol).

- Mae 50 gweithiwr cymdeithasol ychwanegol ar y Gofrestr, fel y nodwyd yn Nhabl 3 uchod, yn gweithio i wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol y tu allan i Gymru ar hyn o bryd.

**Tabl 4: Categori cyflogaeth gweithwyr cymdeithasol mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru**

| Math o gyflogaeth | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol – gwasanaethau cymdeithasol – â llwyth achosion | 3,073 | 3,205 | 3,288 | 3,262 | 3,163 |
| Awdurdod lleol – gwasanaethau cymdeithasol yn rheoli gweithwyr cymdeithasol – dim llwyth achosion | 431 | 461 | 460 | 450 | 441 |
| Awdurdod lleol – gwasanaethau cymdeithasol – swyddi eraill | 420 | 468 | 441 | 436 | 413 |
| Cyfanswm | 3,924 | 4,134 | 4,189 | 4,148 | 4,017 |

- Roedd gan dros dri chwarter (78.7 y cant) y gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru lwyth achosion gwaith cymdeithasol. Mae hon yn ganran debyg i'r blynyddoedd blaenorol.

- Roedd gan 44.2 y cant o bobl sy'n gweithio y tu allan i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol lwyth achosion, sy'n nifer sylweddol is na'r rhai mewn gwasanaethau cymdeithasol.

**Tabl 5: Nifer y gweithwyr cymdeithasol sy'n cael eu cyflogi gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru**

| Awdurdod lleol | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 347 | 338 | 336 |
| Abertawe | 345 | 348 | 335 |
| Caerdydd | 345 | 354 | 317 |
| Sir Gaerfyrddin | 260 | 259 | 254 |
| Caerffili | 227 | 233 | 227 |
| Castell-nedd Port Talbot | 218 | 221 | 226 |
| Pen-y-bont | 232 | 219 | 219 |
| Casnewydd | 224 | 221 | 209 |
| Wrecsam | 199 | 205 | 191 |
| Torfaen | 172 | 182 | 191 |
| Gwynedd | 186 | 179 | 176 |
| Conwy | 186 | 178 | 168 |
| Sir y Fflint | 166 | 160 | 159 |
| Bro Morgannwg | 142 | 147 | 156 |
| Powys | 171 | 163 | 138 |
| Sir Benfro | 148 | 146 | 134 |
| Sir Ddinbych | 143 | 126 | 120 |
| Sir Fynwy | 106 | 105 | 112 |
| Blaenau Gwent | 110 | 110 | 104 |
| Ceredigion | 102 | 104 | 100 |
| Ynys Môn | 80 | 75 | 73 |
| Merthyr Tudful | 80 | 75 | 72 |
| Cyfanswm | 4,189 | 4,148 | 4,017 |

- Mae gan bedwar o'r awdurdodau lleol fwy o weithwyr cymdeithasol nag yn 2016, ac mae gan 17 ohonynt lai. Arhosodd un yr un fath. Mae cyfanswm o 131 yn llai o weithwyr cymdeithasol yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol yng Nghymru, o gymharu â 2016.


- Bu gostyngiad yn nifer y gweithwyr cymdeithasol cofrestredig yn 17 o'r 22 sir yng Nghymru. Ym Mhowys roedd y gostyngiad mwyaf yn y ganran (-15.3 y cant), yna Caerdydd (-10.5 y cant) a Sir Benfro (-8.2 y cant).

- Cynyddodd bedair sir eu nifer o weithwyr cymdeithasol, gyda'r cynnydd mwyaf yn y ganran yn Sir Fynwy (6.7 y cant), Bro Morgannwg (4.1 y cant) a Thorfaen (4.9 y cant).

- Yn fras, mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a gyflogir ym mhob awdurdod unedol yn unol â phoblogaeth pob awdurdod. Er enghraifft, mae wyth y cant o boblogaeth Cymru'n byw yn Abertawe ac mae wyth y cant o weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael eu cyflogi yn Abertawe[1]. Ceir y gwahaniaeth mwyaf yng Nghaerdydd, lle mae 11.5 y cant o'r boblogaeth yn byw, ond 7.9 y cant yn unig o weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol a gyflogir yno.

## 5.5 Cymwysterau

**Ffigur 2: Cymwysterau sydd gan weithwyr cymdeithasol**





*1. Data'r boblogaeth ar 30 Mehefin 2015, amcangyfrifon y boblogaeth canol y flwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Tabl 6: Cymwysterau gweithwyr cymdeithasol

| | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol | 2,777 | 46.6% | 2,672 | 44.7% | 2,622 | 43.2% | 2,468 | 41.4% |
| Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol | 1,372 | 23.0% | 1,544 | 25.8% | 1,690 | 27.9% | 1,845 | 30.9% |
| Tystysgrif cymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol | 1,053 | 17.7% | 985 | 16.5% | 920 | 15.2% | 775 | 13.0% |
| Gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol | 369 | 6.2% | 409 | 6.8% | 487 | 8.0% | 544 | 9.1% |
| Cymhwyster y tu allan i'r DU | 155 | 2.6% | 151 | 2.5% | 159 | 2.6% | 166 | 2.8% |
| Tystysgrif mewn Gwasanaethau Cymdeithasol | 179 | 3.0% | 168 | 2.8% | 144 | 2.4% | 126 | 2.1% |
| Diploma Ôl-raddedig mewn Gwaith Cymdeithasol | 23 | 0.4% | 30 | 0.5% | 27 | 0.4% | 30 | 0.5% |
| Cymhwyster gwaith cymdeithasol arall | 31 | 0.5% | 17 | 0.3% | 14 | 0.2% | 11 | 0.2% |
| Cyfanswm | 5,959 | 100% | 5,976 | 100% | 6,063 | 100% | 5,965 | 100% |

- Mae gan y mwyafrif o weithwyr cymdeithasol Ddiploma mewn Gwaith Cymdeithasol neu Radd mewn Gwaith Cymdeithasol.
- Mae'r ganran sydd â gradd gwaith cymdeithasol yn y DU (Gradd Baglor neu Feistr) yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, gan mai dyma'r cymwysterau sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r proffesiwn ers 2007.
- Fodd bynnag, mae'r gyfran fwyaf o weithwyr cymdeithasol (41.4 y cant) yn parhau i feddu ar y Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol. Mae hyn yn gostwng bob blwyddyn gan fod gweithwyr cymdeithasol newydd yn cymhwyso.

Ffigur 3: Amser ers cymhwyso




| | Llai na 5 mlynedd | 5 i 10 mlynedd | 10 i 15 mlynedd | 15 i 20 mlynedd | 20 i 25 mlynedd | 25 i 30 mlynedd | 30 i 35 mlynedd | 35 i 40 mlynedd | Mwy na 40 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 1,141 | 1,230 | 1,187 | 860 | 595 | 445 | 290 | 156 | 55 |
| 2015 | 1,369 | 1,190 | 1,141 | 844 | 552 | 428 | 270 | 137 | 45 |
| 2016 | 1,352 | 1,155 | 1,193 | 890 | 594 | 403 | 285 | 132 | 59 |
| 2017 | 1,255 | 1,225 | 1,170 | 906 | 569 | 398 | 256 | 124 | 62 |

## 5.6 Gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso

Tabl 7: Cymwysterau myfyrwyr blwyddyn olaf gwaith cymdeithasol yng Nghymru

| | Nifer y gweithwyr cymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | Yn y flwyddyn hyd at 1 Mehefin 2014 | Yn y flwyddyn hyd at 1 Mehefin 2015 | Yn y flwyddyn hyd at 1 Mehefin 2016 | Yn y flwyddyn hyd at 1 Mehefin 2017 |
| Diploma Ôl-raddedig mewn Gwaith Cymdeithasol | 2 | 3 | 3 | 0 |
| Gradd baglor mewn Gwaith Cymdeithasol | 209 | 196 | 168 | 161 |
| Gradd meistr mewn Gwaith Cymdeithasol | 44 | 53 | 75 | 80 |
| Cyfanswm a gymhwysodd mewn gwaith cymdeithasol | 255 | 252 | 246 | 241 |
| Wedi cyfeirio | 1 | 0 | 1 | 8 |
| Wedi gohirio | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Wedi methu | 4 | 7 | 4 | 1 |
| Cyfanswm yn eu blwyddyn astudio olaf | 261 | 259 | 251 | 250 |

- Cymhwysodd 96.4 y cant o'r 250 o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yn eu blwyddyn astudio olaf (241). Dyma ostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn hyd at 1 Mehefin 2016. Roedd nifer y myfyrwyr oedd wedi cyfeirio, ac felly'n gobeithio cymhwyso rywbryd eto, wedi codi i wyth.

**Tabl 8: Myfyrwyr gwaith cymdeithasol blwyddyn olaf yng Nghymru: crynodeb o gofrestru a chyflogaeth erbyn 1 Mehefin**

| | Gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yng Nghymru | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Statws y cofrestryddion | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
| Wedi cymhwyso yng Nghymru rhwng Mehefin a Mai'r flwyddyn cyn dyddiad adrodd mis Mehefin | 255 | | 252 | | 246 | | 241 | |
| Wedi cofrestru fel gweithwyr cymdeithasol erbyn dyddiad adrodd mis Mehefin | 223 | 87.5% | 225 | 89.3% | 232 | 94.3% | 222 | 92.1% |
| Wedi cael swydd gofal cymdeithasol erbyn 1 Mehefin | 179 | 70.2% | 216 | 85.7% | 179 | 72.8% | 163 | 67.6% |
| Wedi cael swydd gofal cymdeithasol **yng Nghymru** erbyn 1 Mehefin | | | 212 | 84.1% | 178 | 72.4% | 158 | 65.6% |
| Wedi cael swydd gwaith cymdeithasol â llwyth achosion yng Nghymru erbyn 1 Mehefin | 118 | 46.3% | 174 | 69.0% | 143 | 58.1% | 109 | 45.2% |
| Wedi ennill swydd gwaith cymdeithasol â llwyth achosion mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 1 Mehefin (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio trwy asiantaeth neu secondiad) | | | 160 | 63.5% | 129 | 52.4% | 101 | 41.9% |

- Cofrestrodd 92.1 y cant o'r myfyrwyr a gymhwysodd yn 2016 yng Nghymru cyn 1 Mehefin 2017, sy'n ostyngiad o 2.2 y cant o gymharu â 2015.
- Roedd 109 o'r 222 a gymhwysodd ac a gofrestrodd i weithio yng Nghymru yn gyflogedig fel gweithiwr cymdeithasol â llwyth achosion erbyn 1 Mehefin. Roedd hyn yn ostyngiad o 12.9 y cant o gymharu â 2016. Roedd 101 ohonynt mewn awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio trwy asiantaeth neu ar secondiad.
- Roedd canran fach (2.3 y cant) o bawb a ymunodd â'r Gofrestr ar ôl cymhwyso wedi cael swydd fel gweithiwr cymdeithasol mewn sectorau eraill. Roedd 12.6 y cant arall yn gweithio mewn swyddi eraill ym maes gofal cymdeithasol.


Tabl 9: Nifer y gweithwyr cymdeithasol a gymhwysodd yn y 12 mis diwethaf

| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Cymhwyso yng Nghymru a chofrestru yng Nghymru | 223 | 225 | 232 | 222 |
| Cymhwyso yng Nghymru a heb gofrestru yng Nghymru | 32 | 27 | 14 | 19 |
| Is-gyfanswm a gymhwysodd yng Nghymru | 255 | 252 | 246 | 241 |
| Cymhwyso y tu allan i Gymru a chofrestru i weithio yng Nghymru | 34 | 24 | 18 | 15 |
| Cyfanswm ar y Gofrestr sydd newydd gymhwyso | 257 | 249 | 250 | 237 |

- Eleni, cymhwysodd 19 o fyfyrwyr (7.9 y cant) yng Nghymru, ond heb gofrestru yng Nghymru (o gymharu â 5.7 y cant yn 2016 ond 10 y cant yn 2015). Nid yw'n hysbys a yw'r myfyrwyr hyn wedi cofrestru â rheoleiddwyr gwaith cymdeithasol eraill er mwyn gweithio y tu allan i Gymru.

## 5.7 Amser a gymerir i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ennill swydd

Ffigur 4: Amser ers graddio cyn i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso, a gymhwysodd a chofrestrodd yng Nghymru, ddechrau yn eu swyddi presennol ym maes gofal cymdeithasol




- O'r 222 o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a gymhwysodd yng Nghymru ac a ymunodd â'r Gofrestr, roedd gan 48.2 y cant swydd ofal cymdeithasol yn syth ar ôl cymhwyso, o gymharu â 43.5 y cant bum mlynedd ynghynt.
- Enillodd 73 y cant swydd gofal cymdeithasol o fewn chwe mis ar ôl cymhwyso. Mae hyn yn is na phum mlynedd yn ôl, pan gafodd 83.9 y cant swydd o fewn chwe mis.
- Enillodd 75.2 y cant swydd gofal cymdeithasol o fewn 12 mis ar ôl cymhwyso, o gymharu â 89 y cant yn 2012.

**Tabl 10: Categori cyflogaeth pob gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso a gofrestrodd yng Nghymru**

| Math o gyflogaeth | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith cymdeithasol â llwyth achosion mewn awdurdod lleol | 134 | 160 | 137 | 108 |
| Swyddi eraill | 19 | 15 | 25 | 22 |
| Awdurdod lleol heb lwyth achosion | 45 | 24 | 18 | 26 |
| Gwaith cymdeithasol â llwyth achosion yn y trydydd sector a'r sector preifat | 6 | 8 | 7 | 4 |
| Gweithiwr Cymdeithasol mewn Asiantaeth | 5 | 5 | 5 | 7 |
| Cyfanswm yng ngofal cymdeithasol yng Nghymru | 209 | 212 | 192 | 167 |
| Di-waith neu'n gweithio y tu allan i faes gofal cymdeithasol neu y tu allan i Gymru | 48 | 37 | 58 | 70 |
| Cyfanswm | 257 | 249 | 250 | 237 |

- Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso mewn cyflogaeth wedi gostwng o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Ar 1 Mehefin, nid oedd 29.5 y cant o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso wedi cael swydd gwaith cymdeithasol, o gymharu â 23.2 y cant yn 2016.

- O'r rhai cyflogedig, mae'r mwyafrif yn gweithio i awdurdod lleol; fodd bynnag, mae nifer y gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso â llwyth achosion sy'n gweithio i awdurdod lleol wedi gostwng o 52.8 y cant yn 2016 i 45.6 y cant yn 2017.

## 5.8 Gweithwyr cymdeithasol yn ymuno â'r Gofrestr a'i gadael

Tabl 11: Gweithwyr cymdeithasol yn ymuno â'r Gofrestr a'i gadael


| | Gweithwyr cymdeithasol yn ymuno â'r Gofrestr neu ei gadael | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Gadael y Gofrestr | 283 | 255 | 384 | 389 | 327 | 480 |
| Ymuno â'r Gofrestr | 400 | 461 | 432 | 406 | 414 | 382 |
| Cyfanswm ar y Gofrestr ar y dyddiad adrodd | 5,719 | 5,911 | 5,959 | 5,976 | 6,063 | 5,965 |
| Gwahaniaeth net | 117 (2%) | 206 (3.6%) | 48 (0.8%) | 17 (0.3%) | 87 (1.5%) | -98 (-1.6%) |

- Am y tro cyntaf, gadawodd fwy o weithwyr cymdeithasol y Gofrestr (480) nag ymuno (382) yn 2016 i 2017, gan arwain at ostyngiad o 1.6 y cant ers 2016.
- Eleni, nifer y gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a ymunodd â'r Gofrestr yw 237 (62 y cant o gofrestryddion newydd). O'r rhain, cymhwysodd 222 ohonynt yng Nghymru.
- Gostyngodd nifer y gweithwyr cymdeithasol a gymhwysodd dros flwyddyn yn ôl ac ymunodd â'r Gofrestr yng Nghymru i 145.
- Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a gymhwysodd y tu allan i Gymru ac a ymunodd â'r Gofrestr yn parhau i gynyddu i 31.

## 5.9 Trosiant gweithwyr cymdeithasol

- Trosiant gweithwyr cymdeithasol yn y flwyddyn ddiwethaf oedd 7.9 y cant, o gymharu â 5.5 y cant yn 2016.
- Ni chynhaliodd 467 o weithwyr cymdeithasol eu cofrestriad. Roedd hyn yn cynnwys 183 a gysylltodd â ni i dynnu eu henwau o'r Gofrestr yn wirfoddol, 170 na lenwodd gais adnewyddu, a 72 a dynnwyd ohoni am beidio â thalu ffi flynyddol.
- Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan y rhai a adawodd y Gofrestr o'u gwirfodd, fel y blynyddoedd blaenorol, oedd ymddeol (93 o weithwyr cymdeithasol, sef 19.4 y cant o bawb a adawodd).
- Yn ogystal, symudodd 15 ohonynt i swydd newydd lle nad oedd angen cofrestru, ac roedd 18 yn gweithio yng ngofal cymdeithasol y tu allan i Gymru.

Ffigur 5: Oedran a rhyw'r gweithwyr cymdeithasol a adawodd y Gofrestr




| | Odan 25 | 25 i 30 | 31 i 35 | 36 i 40 | 41 i 45 | 46 i 50 | 51 i 55 | 56 i 60 | 61 i 65 | Dros 65 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynion | 0 | 2 | 4 | 3 | 13 | 15 | 19 | 28 | 37 | 15 |
| Menywod | 2 | 19 | 25 | 16 | 31 | 29 | 43 | 66 | 77 | 36 |

- Y grŵp oedran mwyaf cyffredin a adawodd, sef 43.3 y cant, oedd 56 i 65. Dim ond 4.8 y cant o'r rhai a adawodd y Gofrestr oedd dan 30 oed, o gymharu â 9.2 y cant yn 2016.

- O'r rhai a adawodd y Gofrestr yng Nghymru, roedd 40.2 y cant (sef 193 o weithwyr cymdeithasol) wedi bod yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Roedd 44.2 y cant o'r rhai a adawodd y Gofrestr yn gweithio gyda phlant (212 o'r 480 a adawodd).

- O'r gweithwyr cymdeithasol a adnewyddodd eu cofrestriad, roedd dros 99.9 y cant ohonynt wedi gwneud o leiaf 90 awr o hyfforddiant a dysgu (PTRL) yn ystod eu cyfnod cofrestru tair blynedd. Un cofrestrydd yn unig a nododd mai'r rheswm dros adael oedd heb fod yn gallu bodloni'r gofyniad PTRL.


## 5.10 Oedran a rhyw'r gweithwyr cymdeithasol

Tabl 12: Oedran y gweithwyr cymdeithasol

| Grŵp oedran | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dan 25 | 1.4% | 1.2% | 0.9% | 0.8% | 1.0% |
| Dan 30 | 9.5% | 9.4% | 9.5% | 9.1% | 9.5% |
| 31 i 50 | 51.7% | 51.7% | 51.0% | 51.0% | 51.6% |
| Dros 50 | 38.7% | 38.9% | 39.5% | 39.9% | 38.8% |
| Dros 60 | 9.4% | 9.5% | 10.4% | 11.0% | 10.6% |


- Fel y gwelir yn y tabl, nid oes llawer o newid wedi bod ym mhroffil oedran gweithwyr cymdeithasol yn y pum mlynedd diwethaf.

Ffigur 6: Oedran a rhyw pob gweithiwr cymdeithasol ar y Gofrestr




| | Odan 25 | 25 i 30 | 31 i 35 | 36 i 40 | 41 i 45 | 46 i 50 | 51 i 55 | 56 i 60 | 61 i 65 | Dros 65 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynion | 2 | 41 | 96 | 123 | 129 | 163 | 216 | 202 | 133 | 57 |
| Menywod | 60 | 466 | 593 | 668 | 658 | 649 | 721 | 543 | 335 | 110 |

**Ffigur 7: Oedran a rhyw gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a ymunodd â'r Gofrestr yn 2017**




| | Odan 25 | 25 i 30 | 31 i 35 | 36 i 40 | 41 i 45 | 46 i 50 | 51 i 55 | 56 i 60 | 61 i 65 | Dros 65 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynion | 2 | 8 | 9 | 6 | 5 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Menywod | 35 | 73 | 30 | 26 | 15 | 16 | 8 | 2 | 0 | 0 |

- Mae'r gymhareb o weithwyr cymdeithasol yn parhau i fod tua un dyn i bedair menyw.
- Mae'r ganran o ddynion a menywod sy'n ymuno â'r Gofrestr fel gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn debyg iawn i nifer y llynedd. Mae 86.5 y cant yn fenywod (o gymharu â 86.4 y cant yn 2016).
- Mae 66.2 y cant o'r gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso dan 35 oed, o gymharu â 21.1 y cant o bob gweithiwr cymdeithasol ar y Gofrestr.

- Cyfartaledd oedran yr holl weithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr yw 46 oed, yr un cyfartaledd ers 2012. Cyfartaledd oedran gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn 2017 yw 33, sy'n debyg iawn i'r blynyddoedd blaenorol, ond gellir ystyried hwn yn oedran uchel, oherwydd y disgwyl bod graddedigion yn iau fel arfer.

- Gwelwyd gostyngiad bach ond sefydlog o flwyddyn i flwyddyn yn y ganran o ddynion ar y Gofrestr, o 21.6 y cant yn 2012 i 19.5 y cant yn 2017.

## 5.11 Amrywiaeth a gallu ieithyddol Cymraeg y gweithwyr cymdeithasol

Tabl 13: Datganiadau anableddau

| | Canran y gweithwyr cymdeithasol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Datgan Anabledd | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Dim anabledd | 97.7% | 97.9% | 97.9% | 97.9% | 97.8% |
| Anabledd | 2.3% | 2.1% | 2.1% | 2.1% | 2.2% |

- Dywedodd 79.6 y cant o weithwyr cymdeithasol wrthym a oedd anabledd ganddynt.

Tabl 14: Amrywiaeth ethnig

| Ethnigrwydd | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn, Gwyn Prydeinig, Gwyn Gwyddelig, Gwyn Cymreig | 4,078 | 87.5% |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 345 | 7.4% |
| Du Affricanaidd | 42 | 0.9% |
| Ethnigrwydd arall | 34 | 0.7% |
| Unrhyw gefndir cymysg arall | 22 | 0.5% |
| Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd | 19 | < 0.5% |
| Du Caribïaidd | 17 | < 0.5% |
| Du neu Ddu Prydeinig Affricanaidd | 17 | < 0.5% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig Indiaidd | 16 | < 0.5% |
| Indiaidd | 15 | < 0.5% |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 9 | < 0.5% |
| Cymysg – Gwyn ac Asiaidd | 9 | < 0.5% |
| Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd | 9 | < 0.5% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig Pacistanaidd | 6 | < 0.5% |
| Du neu Ddu Prydeinig Caribïaidd | 6 | < 0.5% |
| Unrhyw gefndir Du arall | 5 | < 0.5% |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig Bangladeshaidd | 5 | < 0.5% |
| Tsieineaidd | 3 | < 0.5% |
| Bangladeshaidd | 2 | < 0.5% |
| Pakistanaidd | 2 | < 0.5% |
| Cyfanswm | 4,661 | |

- Dywedodd 77.1 y cant o weithwyr cymdeithasol wrthym am eu hethnigrwydd.
- Dywedodd 94.9 y cant eu bod yn wyn, sy'n ostyngiad bach o gymharu â 2016 (95.1 y cant).
- Yng Nghymru, disgrifiodd 95.6 y cant o'r boblogaeth eu hunain fel gwyn[2].

*2. Ffynhonnell: "Arolwg y gweithlu lleol/arolwg poblogaeth blynyddol 2016: Ethnigrwydd yn ôl awdurdodau lleol Cymru" https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-year-ethnicgroup*

**Tabl 15: Gallu ieithyddol Cymraeg gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso o gymharu â'r holl weithwyr cymdeithasol**

| | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Newydd gymhwyso | Yr holl weithwyr cymdeithasol | Newydd gymhwyso | Yr holl weithwyr cymdeithasol | Newydd gymhwyso | Yr holl weithwyr cymdeithasol | Newydd gymhwyso | Yr holl weithwyr cymdeithasol |
| Rhugl yn y Gymraeg | 12.1% | 13.5% | 11.6% | 13.5% | 16.5% | 13.6% | 15.0% | 13.8% |
| Rhywfaint o Gymraeg | 32.0% | 20.4% | 31.6% | 21.0% | 29.8% | 21.7% | 39.7% | 22.9% |
| Dim Cymraeg | 55.9% | 66.1% | 56.6% | 65.5% | 53.6% | 64.6% | 45.3% | 63.3% |
| Cyfanswm a ddatganodd allu yn y Gymraeg | 44.1% | 33.9% | 43.3% | 34.5% | 46.4% | 35.4% | 54.7% | 36.7% |

- Dywedodd 79.5 y cant o weithwyr cymdeithasol wrthym am eu gallu ieithyddol Cymraeg.
- Bu cynnydd yn nifer y gweithwyr cymdeithasol a ddatganodd fod ganddynt allu yn y Gymraeg (naill ai rhywfaint neu yn rhugl) i 36.7 y cant, o gymharu â 35.4 y cant yn 2016.
- Cynyddodd y ganran o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a ddatganodd allu yn y Gymraeg 8.3 y cant (54.7 y cant o gymharu â 46.4 y cant o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn 2016).
- O'r gweithwyr cymdeithasol sy'n gyflogedig ar hyn o bryd ac a ddywedodd wrthym am eu gallu yn y Gymraeg, roedd y ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ar ei huchaf yng Ngwynedd (84.4 y cant) a Sir Fôn (80 y cant). Roedd y ganran â dim Cymraeg o gwbl ar ei huchaf yn Nhorfaen (85.1 y cant heb unrhyw Gymraeg) a Chasnewydd (83.9 y cant).
- Yng nghyfrifiad 2011, dywedodd 19 y cant o boblogaeth Cymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg[3].

*3. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gofynnodd gwestiwn Cyfrifiad 2011 'A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?". Nid oedd y cyfrifiad yn casglu gwybodaeth ynghylch lefelau rhuglder neu ba mor aml roedd yn cael ei defnyddio.*

# Manylion cyswllt

Byddem yn falch clywed gennych os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn.

Os oedd yr adroddiad yn ddefnyddiol i chi, byddai gennym ddiddordeb yn clywed sut rydych wedi defnyddio'r data.

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
South Gate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 303 3444 | E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
Gwefan: www.gofalcymdeithasol.cymru | Trydar: @GofCymdeithasol

© (2017) Gofal Cymdeithasol Cymru
Cedwir pob hawl. Ni chaiff unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd o flaen llaw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i'r cwmpas a ganiateir gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd uchod.
ISBN: 978-1-911463-51-1

**Fformatau eraill**
Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os bydd angen.

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.

Dyluniwyd gan Escape to Design www.escapetodesign.co.uk